




WWF


AM EICH BYD



**AWR DDAEAR
2019**

**YMUNWCH Â'R
FRWYDR AM
EICH BYD**

Sadwrn 30 Mawrth 2019 am 8.30yh
wwf.org.uk/earthhour



BYDDWCH YN RHAN O AWR DDAEAR 2019

- Brwydrwch am eich byd yr Awr Ddaear hon. Ymunwch â miliynau o bobl mewn ymgyrch byd-eang i ddiffodd ein goleuadau.
- Arddangosfa fwyaf y byd o gefnogaeth i weithredu ar amddiffyn y blaned.
- Cymerwch ran gyda'ch teuluoedd a ffrindiau am 8:30yh, Dydd Sadwrn 30 o Fawrth.
- Cymerwch ran yn eich ysgol yn yr wythnos sy'n arwain lan at Awr Ddaear.



Uchafbwyntiau 2018

- Cymerodd 188 o wledydd a thiriogaethau rhan yn yr ymgyrch.
- Diffoddodd yn agos at 18,000 o dirnodau a henebion o'r Tŷ Opera Sydney i'r Tŵr Eiffel ac o Balas Buckingham i gestyll Caerdydd a Chaeredin wrth i filiynau ddod ynghyd i frwydro am ein planed.
- Yn y DU, cymerodd 10 miliwn o bobl rhan yn Awr Ddaear 2018.
- Cymerodd dros 7,000 o ysgolion rhan.



Natur yw ein system cefnogi bywyd.
Mae'n rhoi i ni...

- Awyr glân i anadlu
- Dŵr i yfed
- Bwyd i fwyta
- Egni i gadw ni'n gynnes
- Deunyddiau i wneud pethau
- Rhyfeddodau natur i'w mwynhau

ond...



Rydym yn bygwth dyfodol ein planed

- Mae'r bywyd gwyllt rydym yn caru yn diflannu.
- Mae ecosystemau naturiol fel coedwigoedd yn cael eu torri i lawr.
- Mae ein moroedd yn cael eu tagu gan blastig.
- Mae digwyddiadau tywydd eithafol yn cynyddu oherwydd newid yn yr hinsawdd.





© naturepl.com / Andy Rouse / WWF

Ni yw'r genhedlaeth gyntaf sy'n gwybod ein bod ni'n dinistrio'r byd ac mae'n bosibl mai ni yw'r genhedlaeth olaf a all wneud unrhyw beth yn ei gylch.

Pan fo natur yn ffynnu, rydym ninnau'n ffynnu hefyd

Mae'n amser i ni frwydro am ein
byd:

- Amddiffyn ein bywyd gwyllt
- Sefydlogi ein system bwyd
- Brwydro yn erbyn llygredd
plastig
- Mynd i'r afael â newid
hinsawdd



Mae'n lan i ni i amddiffyn ein planed!

- Efallai mae hi'n teimlo fel bod ein penderfyniadau yn fach ac yn ddibwys. Ond mae nhw'n bwysig iawn!
- Os mae un person yn ddewis defnyddio llai o blastig, mae hynny'n wych! Os mae 100,000 o bobl yn ddewis defnyddio llai o blastig, mae yna fudiad dros newid.
- Mae'r penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud yn gallu helpu i atal newid yn yr hinsawdd a dod â cholled bioamrywiaeth i ben.



Meddylwch am:

- gerdded neu seiclo yn lle defnyddio'r car
- roi'r gorau i ddefnyddio poteli ddŵr plastig
- wneud yn siŵr bod eich gardd yn annog bywyd gwylt i ffynnu
- fwyta prydau sy'n fwy iachus a chytbwys ac sy'n fwy llysieuol
- drefnu casgliad sbwriel yn eich cymuned leol



Awr Ddaear 2018

Cymerodd dros 7,000 o ysgolion rhan yn Awr Ddaear 2018!

Dyma rhai o enghreifftiau o bethau gwnaethant yn y dyddiau a'r wythnosau yn arwain at Awr Ddaear:

- troi bant y goleuadau, offer trydanol, byrddau gwyn a sgriniau cyfrifiadur am awr yn ystod y dydd
- helpu i lanhau traeth lleol
- creu ffilmiau am ddyfodol hinsawdd positif a negyddol
- gwneud addewid i'r blaned
- cynnal digwyddiad ysgol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o newid hinsawdd a cholled cynefinoedd, a gwahodd y gymuned ehangach a'r wasg leol i ddod.



© Wicor Primary School / WWF-UK



© Rathfrim Primary School / WWF-UK



© Fordcombe CE Primary School / WWF-UK





Awr Ddaear 2019

Dyma gwpl o bethau hwyl gall eich ysgol gwneud ar gyfer Awr Ddaear, boed gennych awr, diwrnod neu wythnos o weithgareddau.

Cofiwch, gyda'n gilydd fe allwn ni gwneud gwahaniaeth!

Diffoddwch eich goleuadau i ddangos eich cefnogaeth

Gwnewch addewid i'r blaned a brwydrwch am eich byd!

Beth fydd eich addewid chi?



© Rydal Penrhos Prep / WWF-UK



© Wormit Primary School / WWF-UK



Rhannwch eich straeon

Mae WWF yn griw cymdeithasol ac fe fyddem wrth ein boddau clywed eich straeon am sut yr ydych yn dathlu Awr Ddaear 2019.

Dywedwch wrth eraill fod eich ysgol chi yn cymryd rhan yn Awr Ddaear ac atgoffwch eich ffrindiau a'ch teuluoedd i gymryd rhan ar y noson.



Gofynnwch i'ch athro/athrawes gysylltu â ni!

@wwf_uk a #EarthHourUK

@WWFScotland a #EarthHourScotland

@WWFCymru a #EarthHourWales neu #AwrDdaear


Neu e-bostiwch ni ar schools@wwf.org.uk





WWF


AM EICH BYD



**AWR DDAEAR
2019**

**YMUNWCH Â'R
FRWYDR AM
EICH BYD**

Sadwrn 30 Mawrth 2019 am 8.30yh
wwf.org.uk/earthhour





WWF[®]

AM EICH BYD